**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**CYLCH GORCHWYL**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ENWEBIADAU**

1. *Adrodd*

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n adrodd i'r Cyngor

2. *Amlder Cyfarfodydd*

Dylai'r Pwyllgor gwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd yn unol â'r arferion gorau a nodir yn Rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd a gymeradwywyd gan y Cyngor.

3. *Cyfansoddiad*

Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys:
- Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (Cadeirydd);
- Dirprwy Ganghellor;
- Yr Is-ganghellor
- Tri aelod lleyg o'r Cyngor;
- Un aelod o staff a benodir gan y Senedd;
- Un aelod o staff sy'n aelod o'r Cyngor;
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu aelod arall o'r Cyngor);

Gellir cyfethol aelodau ychwanegol ag arbenigedd penodol drwy argymhelliad i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau.

Nid yw aelodau cyfetholedig yn aelodau o'r Cyngor, ac felly nid ydynt yn aelodau o Ymddiriedolwyr y Brifysgol. Fodd bynnag, maent yn aelodau llawn o'r Pwyllgor y cawsant eu cyfethol iddo, ac maent yn gwneud cyfraniad allweddol at fusnes y pwyllgor.

Mae aelodau cyfetholedig o is-bwyllgorau'r Cyngor yn aelodau lleyg annibynnol, a benodir i gynnig cyngor a mewnbwn arbenigol i fusnes yr is-bwyllgorau. Diben deiliaid y rôl yw darparu cyngor arbenigol ychwanegol o fewn fframwaith llywodraethu'r Brifysgol, heb gynyddu aelodau lleyg y Cyngor.

Ni ddylai fod gan aelodau lleyg pwyllgorau fuddiannau ariannol o bwys yn y Brifysgol.

Dylid rhoi 'sylw dyladwy ' i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

4. *Gohebiaeth Freintiedig ag Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyngor*

Mae braint yn caniatáu i unigolion ac endidau wrthod datgelu deunydd cyfrinachol yng nghyd-destun cyngor cyfreithiol, cymrodeddu, cyfreithia ac ymchwiliadau. Gall braint fod yn berthnasol i gyngor cyfreithiol a materion cyfreithia, ac mae'n cynnwys trafodaethau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a derbyn cyngor cyfreithiol (ysgrifenedig ac ar lafar). Ceir rheolau llym ynghylch pryd mae braint yn berthnasol, a gellir colli braint drwy ddosbarthu deunydd breintiedig heb fesurau diogelu digonol.

Rhagwelir y bydd rhaid i holl aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau, yn ystod tymor eu penodiad, ymwneud â gohebiaeth/gwybodaeth freintiedig, a rhaid iddynt weithredu yn unol â Chôd Ymarfer Cyngor y Brifysgol ar gyfer Aelodau a'r Rheoliadau ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd mewn perthynas â materion o'r fath.

5. *Tymhorau Penodiad*

Penodir aelodau am bedair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir estyn penodiad am ail dymor, heb fod yn hwy na phedair blynedd.

6. *Presenoldeb*

Dylai'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd i'r Cyngor fynychu cyfarfodydd.

Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

7. *Cworwm*

Bydd pum aelod o'r Pwyllgor yn ddigon ar gyfer cworwm, ar yr amod bod o leiaf dri ohonynt yn aelodau lleyg o'r Cyngor *(h.y. y Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor, y Dirprwy Ganghellor a/neu aelodau lleyg o'r Cyngor).*

8. *Diben*

Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau yw adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn barhaus a chynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn glynu wrth arfer gorau ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol.

9. *Cylch Gorchwyl*

Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

1. *Trefniadau Llywodraethu'r Brifysgol*
   (i) Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Brifysgol yn barhaus a chynghori'r Cyngor arnynt, gan gynnwys cynnal busnes y Cyngor;
   (ii) Adolygu polisïau a phrosesau mewn perthynas â rôl y Pwyllgor yn barhaus a gwneud argymhellion i'r Cyngor yn eu cylch;

(iii) Monitro datblygiadau mewn arfer da ym maes llywodraethu a gwneud argymhellion i'r Cyngor;
(iv) Monitro proses cynllunio dilyniant ar gyfer rolau allweddol yn y Brifysgol a derbyn sicrwydd gan yr Is-ganghellor ynghylch hyn.

2. *Aelodaeth y Cyngor*
(i) Adolygu aelodaeth a phroffil y Cyngor yn barhaus, gan sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau a phrofiad i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau;
(ii) Adolygu proses cynllunio dilyniant aelodau'r Cyngor yn barhaus;
(iii) Goruchwylio proses systematig a thryloyw ar gyfer penodi aelodau'r Cyngor;
(iv) Gwneud argymhellion i'r Cyngor o ran penodi ac ailbenodi aelodau;
(v) Goruchwylio'r broses ar gyfer dethol swyddogion lleyg y Brifysgol a gwneud argymhellion i'r Cyngor o ran eu penodi;
(vi) Adolygu disgrifiadau rôl y swyddogion lleyg ac aelodau'r Cyngor yn rheolaidd;
(vii) Goruchwylio a monitro prosesau sefydlu, mentora, datblygu ac arfarnu aelodau'r Cyngor a chadeiryddion pwyllgorau;
(viii) Adolygu'n barhaus sut caiff aelodau'r Cyngor eu defnyddio a'u hymrwymiadau amser mewn perthynas â gweithgarwch sy'n ymwneud â'r Cyngor;
(ix) Monitro cydymffurfiaeth aelodau'r Cyngor â Chôd Ymddygiad y Cyngor;
(x) Adolygu Cofrestr Buddiannau'r Cyngor yn flynyddol a sicrhau bod gwrthdrawiadau buddiannau posib aelodau'r Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar-lein;
(xi) Bod yn ymwybodol o nodweddion amrywiaeth yn ogystal â chydbwysedd rhwng y rhywiau yn yr aelodaeth.

3. *Pwyllgorau*
(i) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer sefydlu a diddymu holl bwyllgorau'r Cyngor a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch newidiadau i gylchoedd gorchwyl pwyllgorau'r Cyngor;
(ii) Adolygu aelodaeth holl bwyllgorau'r Cyngor a gwneud argymhellion i'r Cyngor yn eu cylch bob blwyddyn;
(iii) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer penodi Cadeiryddion holl bwyllgorau'r Cyngor;
(iv) Gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch disgrifiad rôl cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau.

4. *Dogfennau Llywodraethu*
(i) Adolygu a gwneud argymhellion i'r Cyngor a, lle y bo'n briodol, i'r Senedd, ynghylch newidiadau arfaethedig i ddogfennau llywodraethu, gan gynnwys y Siarter, y Statudau, yr Ordinhadau, Datganiad o Brif Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Datganiad o Bwerau Dirprwyedig y Cyngor.

5. *Arall*
(i) Cymeradwyo, ar ran y Cyngor, enwi adeiladau, ystafelloedd, mannau agored a chyfleusterau eraill y Brifysgol;

(ii) Goruchwylio rhwymedigaethau statudol y Cyngor mewn perthynas ag Undeb y Myfyrwyr;
(iii) Goruchwylio trefniadau cyfansoddiadol is-gwmnïau'r Brifysgol a gweithrediad priodol eu busnes, a gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynghylch penodi aelodau'r Cyngor i is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig.
(iv) Ystyried unrhyw faterion eraill a gyfeirir at sylw'r Pwyllgor gan y Cyngor.

6. *Adolygiad Effeithiolrwydd*
(i) Datblygu prosesau a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar gyfer adolygiadau cyfnodol o effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i bwyllgorau a rhoi argymhellion a gymeradwyir ar waith.
(ii) Adolygu'n flynyddol effeithiolrwydd y Pwyllgor yn erbyn ei gylch gorchwyl a chynnig argymhellion ar gyfer newid i'r Cyngor.

7. *Pwerau*
(i) Gweithredu ag awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor;
(ii) Sefydlu'r fath grwpiau tasg a gorffen sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes y Pwyllgor;

*Dyddiad Adolygu Diwethaf: Hydref 2023*
*Dyddiad Adolygu Nesaf: Hydref 2024*
*Cymeradwywyd gan y Cyngor: 29 Tachwedd 2021*
*Diwygiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor: 09 Hydref 2023*